Cynllun Adnoddau Coedwig Llangollen

Crynodeb o'r amcanion:

- Cael gwared ar goed llarwydd ac amrywio cyfansoddiad y goedwig o ran rhywogaethau er mwyn gwella gwydnwch rhag plâu a chlefydau gan adeiladu coedwig gadarn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

- Cynyddu amrywiaeth strwythurol trwy gyflwyno cyfnod cadw hirdymor a Choedwig Gorchudd Parhaus.

- Parhau i gynnal cyflenwad cynaliadwy o gynhyrchiant pren trwy'r cynllun a ddefnyddir i gwympo coed a'r dewis o rywogaethau i'w hailstocio.

- Cynyddu ardaloedd coetir olynol/glannau'r afon er mwyn gwella gwydnwch cynefinoedd a chysylltedd cynefinoedd ar raddfa'r dirwedd.

- Nodi a diogelu nodweddion treftadaeth pwysig

- Cynnal a gwella profiad ymwelwyr drwy ddarparu amgylchedd diogel a braf sy'n newid yn fwy graddol dros amser

- Ymchwilio i gyfleoedd cyllido er mwyn ychwanegu mwy o baneli dehongli ar y safle ac adnoddau dysgu ar-lein.

Crynodeb o'r prif newidiadau a fydd i'w cael yn y goedwig:

- Tynnu'r holl goed llarwydd o'r coetiroedd (85ha) fel rhan o raglen lleihau llarwydd CNC er mwyn lliniaru bygythiad clefyd *Phytophthora ramorum*.

- Adfer safleoedd coetir hynafol (473ha) drwy gael gwared ar goed conwydd a chreu cynefin coetir llydanddail brodorol.

- Cynnydd yn yr ardaloedd a ddyrannwyd i gadw yn y tymor hir (8ha).

- Adfer safleoedd coetir hynafol (473ha) gan waredu ar gonwydd a chreu cynefin llydanddail brodorol.

- Meddalu ymylon conwydd i leihau'u heffaith weladwy ar y dirwedd.

- Gostyngiad yng nghyfran gyffredinol sbriws Sitka er mwyn gwella amrywiaeth y rhywogaethau a gwella gwydnwch y coetiroedd rhag plâu a chlefydau.